



# CWTSH MYRDDIN

*Rhifyn – 25.01.2016*

## **Pabis dur disgyblion Bro Myrddin Ypres, Gwlad Belg.**

Ar ddydd Llun y 11eg o Ionawr aeth 16 disgybl blwyddyn 9 Dylunio a Thechnoleg i gydweithio gyda gof lleol i greu 17 pabi allan o ddur ar gyfer cofio 'Ypres 2016'.



Ym mis Medi 2016 bydd cofeb newydd yn cael ei gosod o flaen caeau Flanders yn Ypres, Gwlad Belg. Bydd y gofeb yn cael ei lleoli ger y Fynwent Ryfel Almaenig yn Langemark Poelkapelle. Bydd y gofeb yn coffáu pawb a fu'n rhan o'r Rhyfel Byd Cyntaf, boed yn filwrol neu yn sifil. Bydd un pabi a grëwyd gan y disgyblion yn cael ei osod wrth droed y gofeb newydd tra bydd yr 16 pabi arall yn cael eu cynnwys mewn torch a fydd yn cael ei gosod yn Menin Gate, Ypres. Mae pob pabi yn unigryw i'r disgybl ac mae llythrennau blaen y disgybl a greodd pob pabi wedi cael eu stampio yn barhaol arnynt. Bu'n brofiad arbennig i'r disgyblion.



## Côr a Cherddorfa Cenedlaethol Ieuencid Cymru

Llongyfarchiadau i'r canlynol am gael eu derbyn i Gôr a Cherddorfa Cenedlaethol Ieuencid Cymru:



Sioned Beynon BI 12  
Elen Fflur Davies BI 12  
Gwenno Griffiths BI 12  
Mared Owen BI 11



Gwenno Accaioli BI 12  
Sophie McLaughlin BI 13

## Canlyniadau Chwaraeon Bro Myrddin Ionawr 2016

Cafodd disgyblion Bro Myrddin lwyddiant mawr ar y maes chwaraeon ar ddechrau'r flwyddyn newydd.



## Pencampwyr pêl-rwyd Gorllewin Cymru

Llongyfarchiadau i ferched blwyddyn 10 sydd yn bencampwyr pêl-rwyd Gorllewin Cymru

Twrnament 'top schools' hoci o dan 16 Rownd de Brianne

QEHS 0 – Bro Myrddin 1

Dyffryn Taf 1 – Bro Myrddin 1

QEHS 1 – Dyffryn Taf 0

Gemau Pêl-rwyd Dydd Llun 11eg o Ionawr yn erbyn Ysgol Dyffryn Aman:-

Bl.7a ennill 11-5

Bl.7b ennill 2-1

Bl.8a colli 15-2

Bl.8b colli 6-3

Bl.9a ennill 8-7

Bl.9b ennill 9-6

## Taith Mathemateg i Gaerdydd



Ar ddydd Mercher yr 20fed o Ionawr, aeth criw o ferched blwyddyn 12 a 13 i Brifysgol Caerdydd er mwyn cael cyfres o ddarlithoedd Mathemateg. Pwrpas y diwrnod oedd i'n haddysgu am y cyfleoedd sydd ar gael i fenywod yn y byd Mathemateg. Roeddent yn ceisio ein hannog i astudio Mathemateg bellach ac i barhau gyda'n hastudiaethau Mathemateg. Cawsom sawl darlith wahanol gyda'r ffocws ar

fathemategwraig enwog, er enghraifft, Mileva Maric Einstein, sef gwraig yr enwog Albert Einstein. Roedd hyn yn ddiddorol iawn wrth i ni ddysgu bod llawer o waith menywod fel hyn yn mynd heb sylw. Roedd testunau'r darlithoedd yn amrywio o bynciau mathemateg traddodiadol i fathemateg 'hip' fel y theorem Riemann sydd dâl heb ei ddatrys, yn ogystal â'r ochr ariannol ac economaidd i Fathemateg. Yn ystod y diwrnod hefyd, cawsom y cyfle i fod yn rhan o gwis Mathemateg er mwyn profi ein sgiliau. Ar ôl gorffen yr holl ddarlithoedd yn y brifysgol, cawsom ychydig amser yn y brif ddinas cyn cychwyn ar ein taith adref.

*Adroddiad gan Gwenllian Phillips blwyddyn 13*

## Taith yr Adran Gerdd i weld Billy Elliot 2016

Ar Ionawr yr 21ain, 2016, ymgasglodd 154 o ddisgyblion Ysgol Bro Myrddin ym maes parcio Halfords am 6 o'r gloch y bore, oll yn barod i deithio i brif ddinas Prydain, Llundain, i wylio'r sioe gerdd enwog 'Billy Elliot'. Roedd tri bws yn llawn disgyblion o flwyddyn wyth i'r chweched dosbarth yn gyffrous iawn i fynd ar daith flynyddol yr Adran Gerddoriaeth.

Wedi taith o dua pum awr, cafodd y disgyblion cyfle i gael cinio a siopa yn Covent Garden, cyn ymgynnull i deithio i'r theatr i weld y sioe. Yn amlwg, pinacl y daith oedd gweld y sioe Billy Elliot, ac mae'n rhaid dweud fod pawb wedi mwynhau'n enfawr, roedd yn wych!



Buom ni fel disgyblion yn andros o lwcus i gael cwrdd â Gillian Elisa, a oedd yn cymeriadu Mam-gu Billy yn y sioe. Cawsom ni'r cyfle i'w holi am ei phrofiadau, tynnu lluniau a hefyd derbyn CD fel rhodd i'r ysgol. Braff oedd hi i glywed yr iaith Gymraeg yng nghanol Llundain hefyd!

Teithiodd y tri bws yn ôl i Gymru fach, ac erbyn i ni gyrraedd Caerfyrddin roedd pawb yn awyddus i fynd i'w gwelyau. Hoffwn ni ddiolch i'r adran Gerddoriaeth am drefnu'r daith arbennig yma, ac i'r holl staff a ddaeth gyda ni i'w wneud yn ddiwrnod i'w gofio.

Adroddid gan Alaw Evans blwyddyn 9-5